



Y NEGESYDD

EBRILL 2020

GAIR GAN Y GWEINIDOG - *Yma o Hyd!*

Er mwyn atal neu o leiaf arafu lledaeniad y Covid-19 mae yna nifer cynyddol o bethau mae'n rhaid i ni fel eglwys beidio â'u gwneud ar hyn o bryd - ymgynnull i addoli, mynd i dai ein gilydd na mynd allan o gwbl heblaw bod rhaid neu am gegaidd o awyr iach. Rhaid peidio sefyll yn myyl pobl (heblaw rhywun o'n tŷ ni) wrth fynd am dro. Dyna pam da ni wedi gorfod penderfynu dosbarthu'r Negesydd ar e-bost yn unig y tro hwn. A chymryd y bydd y Post Brenhinol yn dal i weithio, bydd peth deunydd yn cyrraedd y rhai nad oes ganddynt e-bost drwy'r post ar gyfer Sul y Blodau a phenwythnos y Pasg.

Ond mae hi'n hollbwysig i ni gofio beth y medrwn ni wneud adre. Gallwn addoli a gweddïo er mwyn derbyn cynhaliaeth Duw a gofyn am gynhaliaeth Duw i eraill. Rydym yn perthyn i'n gilydd a gallwn gryfhau'r cysylltiadau drwy e-bost neu alwad ffôn. Os ydym yn rhannu tŷ gallwn ddal ati i ofalu ar ôl ein gilydd a bod yn amyneddgar (bydd ar Lloyd fy ngŵr angen digon o amynedd coeliwch fi!). Gallwn hefyd ddal i wasanaethu'r gymuned drwy gyfrannu'n ariannol i sicrhau y bydd y Banc Bwyd yn medru prynu pethau angenrheidiol i'r anghenus. Addoli a gweddïo, perthyn, gofalu a gwasanaethu - ie dyma waith yr Eglwys ym mhob cyfnod. Ac er gwaethaf Covid-19, ydan, diolch i Dduw, da ni, Eglwys Emaus yma o hyd!

Caei M Jones

e-bost : gweinidog.emaus.bangor@gmail.com

ffôn : 01286 660666



SAFFRWM a CHENNIN PEDR

Mae'r saffrwm a cennin Pedr yng ngardd Emaus yn un o'r arwyddion fod cylch natur yn parhau i droi; mae'r saffrwm yn symbol hefyd o'r ymgyrch byd-eang i ddifa polio ac yn gadarnhad, yn y dyddiau tymhestlog hyn, o'n gallu i sianelu adnoddau er daioni.



TRAIDCRAFT

PYTHEFNOS MASNACH DEG

Cafwyd diweddsglo da i'r pythefnos eleni pan ddaeth nifer teilwng iawn i'n bore coffi Traidcraft ddechrau mis Mawrth i groesawu Jenipher Wettaka, cynhyrchydd coffi o Uganda. Cawsom



fraslun ganddi o fywyd gwagedd yn ei hardal, a gymaint mae masnachu teg yn helpu eu bywydau a'u cymunedau. Cawsom hefyd flasu ei choffi wrth sgwrsio a chymdeithasu. Daeth Maer Bangor, y Cynghorydd John Wyn Williams, a Sian Gwenllian AC i gefnogi, a braf hefyd oedd cael cwmni Felana, myfyrwraig o Fadagasgar, wnaeth ei hun yn gartrefol iawn yn ein plith. Arhosodd nifer dda i fwynhau cawl cennin a dewis hyfryd o gacennau Masnach Deg.

Roedd yn fore byrlymus a llawen, ac fe gasglwyd £300 tuag at waith elusenol Traidcraft.



Diolch yn fawr i bawb fu'n paratoi, yn helpu ar y diwrnod ac yn cefnogi.

DATHLU GŴYL DDEWI

Dathlwyd ein Gŵyl Ddewi
eleni ar fore Sul yr Ŵyl
mewn oedfa fyrlymus
i bob oed
a chyfle ar y diwedd
i gymdeithasu'n hamddenol
dros baned.

*Mae'r lluniau'n dweud y
cyfan.*



DI-FFIB

Dan oruchwyliaeth

Tomos Hughes,

Swyddog Cymorth Diffibrilwyr

Gogledd Cymru,

gosodwyd y bocs hwn
wrth ddrws cefn y capel

at ddefnydd

yr aelodau a'r cyhoedd


yn gyffredinol.

Mae'n un o tua
1,200 o ddiffibrilwyr

yng ngogledd Cymru.

Diolch i bawb a drefnodd y

cam pwysig hwn.





Y GENHADAETH CASGLIAD Y BLYCHAU

Hyd yma, casglwyd y swm anrhydeddus o £745.52. Llauer o ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Oherwydd yr amgylchiadau, bydd y casgliad yn dal ar agor tan ddiwedd Ebrill.

Os ydych yn dymuno cyfrannu, gallwch roi eich rhodd mewn amlen drwy ddrws Dilwen. Os gwelwch yn dda, gwnewch sieciau yn daladwy i “BMS” ac yna gellir eu hanfon yn uniongyrchol i'r gymdeithas. Erbyn hyn, mae'r arian parod yn gynwysiedig yng nghyfrifon y capel a byddaf i'n cael siec am yr arian parod i'w danfon ymlaen i'r gymdeithas gan nodi'r enwau a'r swm y rhai sydd yn gwneud Rhodd Gymorth.

STAMPIAU

Daliwch ati i gasglu'r stampiau ac rwyn siwr cawn gnwd da pan fyddwn yn aildddechrau cyrddau. Os ydych dan 'glo', rwyn siwr byddwch yn barod i helpu i'w paratoi gan eu rhannu i “stampiau tramor” ac “eraill” a gadael ymyl!

CYFARFOD BLYNYDDOL SENANA CYMRU

Roedd hwn i fod i gymryd lle i lawr yn Nhrefdraeth, Sir Benfro ddechrau Mai ond mae'r penderfyniad wedi'i wneud i ohirio tan y flwyddyn nesa. Felly, bydd Anne Lapage yn dal yn ei swydd o fod yn Llywydd a bydd Bonni Davies yn cymryd drosodd yn 2021.

Os am gysylltu, ar 'skype' neu fel arall, fy rhif ffôn yw : 01248 713464.

Sîan Arwel Davies





DIGWYDDIADAU'R PASG

Ar sail cyngor
llywodraethau'r DU a
Chymru mae Cytûn Bangor,
mewn ymgynghoriad
gydag eglwysi'r ddinas,
wedi penderfynu peidio
cynnal y ddrama
na'r orymdaith arferol
ar Ddydd Gwener
y Groglith,
a pheidio cynnal
y cyfarfodydd arferol
ar Sul y Pasg.

PROFEDIGAETH

Cydymdeimlwn yn fawr â Siân a Tomos Morgan, Gwenno, Medi a Lisa, Caer Menai, Ffordd Meirion.

Bu farw mam Siân, Janet Hughes, ar Fawrth 1af, yn 96 mlwydd oed yng Nghartref Y Rhos, Malltraeth.

Bu'n ddiwyd ar hyd ei hoes, yn gweithio gartref ar y fferm ger Dinbych ar ôl gadael ysgol ac yna'n cadw Siop Trebor Hughes, siop Gymraeg yn Rhuthun, gyda'i phriod, Trebor.

Wynebodd ergydion lawer; colli ei gŵr ac yna ei dau fab, Arwel a Gwyndaf. Daeth i fyw i Abbeyfield, Siliwen, saith mlynedd yn ôl er mwyn bod yn agosach at Siân ac roedd wrth ei bodd yn cael cwmni'r teulu, yn arbennig ei hwyresau.

DIOLCH

Byddwn i gyd yn ategu'r cyfarchiad hwn gan Olaf a Helen ac yn diolch i Casi am ei harweiniad dros y cyfnod helbulus hwn:

Gair o werthfawrogiad am y pecyn sylweddol a chynhwysfawr a geir yn yr ebost a'r neges a anfonir i aelodau Emaus. Mae'n amlwg fod cryn ofal a meddwl y tu ôl i'r cyfan. Rwy'n sicr y bydd y gyfres o weddiâu yn ddefnyddiol iawn i'r ffyddloniaid fydd yn cael eu hamddifadu o oedfa dros y cyfnod ansicr nesaf.

Da gweld fod Emaus fel nifer o 'achosion' eraill yn sylweddoli fod eglwys yn anhraethol mwy nag adeilad.

Ein cofion at bawb a gallwn eich sicrhau y byddwch yn ein gweddiâu'n gyson.

Olaf a Helen

CORONAFEIRWS

Ar wahan i'r effaith ar iechyd pobl, mae sgil-ffeithiau'r coronafeirws wedi bod yn bellgyrhaeddol mewn sawl ffordd.

Er enghraifft, mae Dewi Jones, mab Iona Jones, bellach yn ôl yn Shanghai ar ôl cael ei wahanu oddi wrth ei deulu oherwydd effaith y feirws.

Ac mae Gwenno Morgan, Siliwen, wedi methu mynd yn ôl i Texas i gwblhau ei chwrs cerddorol a chael ei gorfodi i gwblhau ei haseiniadau o bell.

Daeth Gwenno adre i fod yn angladd ei nain, Janet Hughes.

COFIO DIL

Treuliodd Dilys Meinir Williams - neu Dil fel y'i gelwid gan ei theulu a'i ffrindiau - gyfnod ei phlentyndod yn ardal Aberystwyth gyda'i rhieni, ei hefaill Dyfed, a'i thri brawd arall, Gerwyn, Hefin ac Elwyn. Roedd ei mam yn un o deulu enwog y Cilie.

Wedi cyfnod yng Ngholeg Hyfforddi Athrawon y Barri, cafodd Dil swydd mewn ysgol yn Birmingham lle y cyfarfu â Wil pan oedd y ddau'n aelodau o glwb drama yn y ddinas honno. Priodwyd y ddau ac aethant i fyw i Landudno cyn symud i Fangor pan benodwyd Wil yn brifathro ar Ysgol Treborth. Erbyn hynny, roedd ganddynt ddau o blant bach, Rhian Mai a Trystan.

Ymhen amser, penodwyd Dil i redeg Uned Asesu Cyn-ysgol yn Llangefni a gwnaeth waith clodwiw iawn yno. Wedi'r cyfan, gallai uniaethu â rhieni plant yr Uned oherwydd ei phrofiad efo'i merch ei hun. Roedd gan Rhian Mai anghenion dwys a bu gofal a chonsyrn Dil amdani yn arbennig. Er i Rhian Mai symud i gartref yn Llanberis

flynyddoedd yn ôl, roedd yn ymweld â'r Encil, cartref Dil, yn wythnosol. Daliodd Dil i gadw cysylltiad clos â'i merch hyd y diwedd.

Mae'n debyg mai Rhian Mai a ysgogodd Dil a Wil i gychwyn Clwb y Gateway i blant a phobl ifanc ag anableddau yn Ysgol Treborth bob nos Wener. Roedd yn gyrchfan poblogaidd a ddenai ddwsinau yno i fwynhau eu hunain. Roedd gan Dil ran allweddol yn trefnu gweithgareddau'r Clwb ar hyd y blynyddoedd. Trefnodd deithiau a phenwythnosau o bryd i'w gilydd - ac nid ar chwarae bach y gwnaethpwyd hynny! Byddai angen trefnu criw da o wirfoddolwyr ar ben popeth arall.

Wedi ymddeol, symudodd Dil a Wil i fyw i'r Encil yn Nhregarth lle bu'r ddau'n mwynhau trin yr ardd a hamddena. Parhaodd Dil i wneud ei gwaith fel Ynad Heddwch am gyfnod. Roedd hi wastad llawn hwyl ac yn mwynhau bywyd. Doedd dim yn rhoi mwy o bleser iddi na chymdeithasu yng nghwmni'i theulu a'i ffrindiau.

Cydymdeimlwn â Trystan, sy'n byw yn Wiltshire, ei wraig Rhian Non a'r wyrion Morgan a Henri. Cofiw'n yn ddwys am Rhian Mai.

- Ann Roberts

TREFNIADAU BRYD - APÊL AM GEFNOGAETH ARIANNOL

Yn y cyfnod anodd presennol, cofiwn am y rhai na allant lenwi'u cypyrddau a hwythau'n byw un dydd/wythnos ar y tro'n ariannol.


Mae'r Banc Bwyd yn gwerthfawrogi'n haelioni fel eglwys ac fel unigolion er mwyn wynebu'r galw cynyddol ar y Banc am gymorth.

Nid ydym yn y Capel ar y Sul nac yn gallu derbyn arian parod, ond rydym yn awyddus i allu parhau i gefnogi'r Banc Bwyd gyda chyfraniad misol cyson, a chefnogi mudiadau dyngarol eraill, yn arbennig dros y misoedd nesaf.

Gall aelodau ein cynorthwyo i wneud hynny mewn tair ffordd:

- Rydym yn ddiolchgar i'r rhai sy'n cyfrannu i Emaus drwy ddebyd uniongyrchol. Efallai yr hoffech ystyried cynyddu eich taliad misol fel cyfraniad i'r apêl hon.
- Os nad ydych yn cyfrannu drwy ddebyd uniongyrchol ac yr hoffech wneud cyfraniad misol, gallwch wneud trefniadau ar y we os yw hynny yn gyfleus i chi neu wrth ymweld â'ch banc.
Enw'r cyfrif perthnasol yw Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor, y côd didoli yw 40-09-03 a rhif y cyfrif yw 00649392
- Gallwch wneud taliad trwy anfon siec yn daladwy i :
Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor at Dilwen Lloyd Jones, 10 Ffordd Deiniol, Bangor LL57 2UR, rhif ffôn: (01248) 364665; e-bost: dilwen.emaus.bangor@gmail.com

LLONGYFARCHIADAU




Llongyfarchiadau calonnog i Morgan Owen am ddod i'r brig mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Glwb Rotari Bangor.

Roedd y gystadleuaeth yn agored i ddisgyblion nifer o ysgolion lleol, ond dewiswyd Morgan gan dri aelod o'r clwb yn fuddugol.

Bydd Morgan yn cael ei noddi gan y clwb i fynychu cwrs ysgrifennu creadigol yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy ddiwedd y mis, ac yno bydd yn cael hyfforddiant gan lenorion fel Carol Anne Duffy.

Llongyfarchiadau mawr i Morgan a phob hwyf ar y cwrs.



GRŴP DARLLEN

Ni chynhelir cyfarfod o'r Grŵp Darllen ym mis Ebrill

Llongyfarchiadau mawr

i Maureen Rhys a John Ogwen ar ddod yn nain a thaid.

Y wyres yw Beti Wyn, plentyn cyntaf Guto a Heledd.



Diolch i bawb am y cyfraniadau hael i apêl ddiweddaraf Pobl i Bobl.

Y bwriad gwreiddiol oedd mynd â'r eitemau i Northwich at Care UK ond, yn sgil y coronafeirws, nid oedd modd eu hallforio ac fe'n cynghorwyd i gyfrannu'r cyfan i'n Banc Bwyd Lleol. Mae pethau'n gallu newid mor sydyn!

- Eysyllt Bryn

PARATOI Y NEGESYDD

Diolch yn fawr iawn i Gareth Ffowc Roberts am gasglu a chydlynu'r wybodaeth, mewn cyfnod ansicr a phryderus, ar gyfer y rhifyn yma o'r Negesydd.

*Dylid gyrru'r holl gyfraniadau ar gyfer rhifyn Mai 2020 i Siân Arwel Davies
<arwelfa@hotmail.co.uk>*

*neu i'r Negesydd
<negesydd@btinternet.com>*